

# REVALIDATION

**NMC** Nursing &  
Midwifery  
Council



**Ail-ddilysu yn ystod Covid-19**

## Ers dyfodiad y coronafeirws (Covid-19) mae'r gwasanaethau iechyd a gofal ym Mhrydain yn wynebu sialensiau heb eu tebyg o'r blaen, ac mae'r ddau broffesiwn, nyrsio a bydwreigiaeth wrth wraidd yr ymateb iddynt.

Fel y rheolydd ar gyfer nyrsys a bydwragedd ym Mhrydain, a nyrsys cysylltiol yn Lloegr, rydym yn deall y byddwch eisiau gwneud eich gorau glas i gefnogi'r ymateb i'r argyfwng. Rydym hefyd yn ymwybodol o'ch ymrwymiad i weithio o fewn y Cod cynnal safonau.

Mae ail-ddilysu yn rhan allweddol o'ch bywyd proffesiynol: mae'n gymorth i chi gynnal arferion diogel ac effeithlon drwy eich annog i ddiweddarau eich gwybodaeth a datblygu sgiliau newydd. Mae'r manteision yn glir, ac rydyn ni'n eich annog i ail-ddilysu fel arfer. Fodd bynnag, yn ystod yr argyfwng, rydyn ni'n cydnabod bod cadw pellter cymdeithasol, llwyth gwaith cynyddol a gweithio gartref ymysg y ffactorau a allai ei gwneud yn anodd i chi gwblhau eich proses ail-ddilysu. Gallai'r ffactorau hyn fod yn berthnasol hefyd i gydweithwyr a allai fod yn gadarnwyr neu'n bartneriaid trafod myfyriol. Efallai fod gennych gwestiynau neu efallai bod angen cymorth ychwanegol arnoch i ail-ddilysu. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y byddwn yn eich cefnogi i fodloni'r gofynion.

## AR GYFER PWY

## MAE'R DDOGFEN?

**Mae'r ddogfen hon ar gyfer pawb ar ein cofrestr sydd angen gwneud cais i ail-ddilysu o fis Mawrth 2020 ymlaen yn ystod argyfwng Covid-19. Ni wyddwn am ba hyd y bydd yn parhau ond wrth i ni ddod i wybod mwy fe fyddwn yn diweddarau'r ddogfen, a phawb a effeithir.**

Mae'r ddogfen hefyd i'r rheiny sy'n cefnogi'r bobl sydd ar ein rhestr sy'n ceisio cyrraedd y gofynion, gan gynnwys cadarnhawyr, partneriaid trafodaethau myfyriol, a chyflogwyr. Mae croeso i chi rannu'r ddogfen gyda nhw os teimlwch y byddai hynny o fudd.

**Sylwer:** Nid yw ein gofynion yn berthnasol i bobl ar y gofrestr dros dro. Am wybodaeth bellach am weithio ac am fod ar y rhestr dros dro, ewch i'n **hwb Coronafeirws**.

# SUT I GYRRAEDD

## Y GOFYNION

**Mae'r holl wybodaeth am y gofynion, sut i'w cyrraedd a sut i gyflwyno eich cais NMC ar-lein ar gael yn y canllaw cynhwysfawr Sut i ail-ddilysu gyda NMC.**

Rydyn ni hefyd yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau yn yr adran **ail-ddilysu**-bwrpasol ar ein gwefan, gan gynnwys **ffurflenni a thempledi** i gofnodi sut rydych chi wedi bodloni'r gofynion, yr **astudiaethau achos**, a gwybodaeth i **gadarnhawyr** a **chyflogwyr**. Rydym ni wedi cynnwys rhai esiamplau o **ffurflenni a thempledi** a fyddai o bosibl o fudd ichi.

Rydym yn derbyn y bydd gennych gwestiynau ar sut i gyrraedd rhai o'r anghenion felly dyma rai awgrymiadau:

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Yn ystod eich cyfnod cofrestru o dair blynedd ar hyn o bryd, byddwch wedi bod yn cronni eich 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus, sy'n cynnwys o leiaf 20 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus cyfranogol. Fodd bynnag, mae gweithgareddau wyneb yn wyneb yn gyfyngedig ar hyn o bryd, felly efallai y bydd hi'n fwy anodd i chi ddod o hyd i rai mathau o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, neu efallai fod eich cwrs wedi ei ganslo ar fyr rybudd.

Yn syml, i gyrraedd yr anghenion dysgu paratoadol, bydd yn rhaid i chi ymgymryd â gweithgaredd sydd yn cynnwys rhyngweithio ag o leiaf un gweithiwr proffesiynol arall. Gall hyn fod mewn amgylchedd real neu rithiol - nid oes rhaid i chi fod yn yr un 'stafell â'r person yr ydych yn rhyngweithio â nhw. Mae'n bwysig cofio nad yw'r MNC yn argymhell unrhyw fath penodol o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus; fe gewch chi ddewis gweithgaredd sydd fwyaf buddiol i'ch datblygiad chi fel gweithiwr proffesiynol.

#### Mae enghreifftiau o ddysgu paratoadol yn cynnwys:

- trafodaethau fforwm ar-lein
- gweminarau
- digwyddiadau byw ar Facebook
- cysgodi a mentora
- trafodaethau yn ymwneud â'ch practis

Yn ein **canllaw** rydym wedi rhestru rhai enghreifftiau sydd, ac sydd ddim yn weithgareddau paratoadol CFD.

Mae'n bwysig cofio nad yw'r MNC yn argymhell unrhyw fath penodol o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus; fe gewch chi ddewis gweithgaredd sydd fwyaf buddiol i'ch datblygiad chi fel gweithiwr proffesiynol.

Cofiwch gadw tystiolaeth o'ch Datblygiad Proffesiynol Parhaus i ddangos i'ch cadarnhâwr. Awgrymir eich bod yn defnyddio ein **templed** i'ch helpu chi wrth gofnodi eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus Golyga hyn y bydd yn haws dangos i'ch cadarnhâwr sut gwnaethoch chi gyrraedd y gofynion.

## Trafod a chadarnhad myfyriol

Lle bo hynny'n bosibl, dylai eich trafodaeth a'ch cadarnhad myfyriol ddigwydd wyneb yn wyneb ond rydyn ni'n gwybod y bydd hynny'n anodd iawn ar hyn o bryd. Awgrymir y dylech gynnal rhan helaeth o'ch sgysiau â'ch partner trafod myfyriol a'ch cadarnhâwr dros y ffôn, sgwrs fideo neu drwy dechnoleg arall. Gallwch anfon copi o'ch portffolio ail-ddilysu fel bod y ddau ohonoch yn gweld beth sy'n cael ei drafod.

## Cadw eich tystiolaeth

Rydyn ni'n gwybod y bydd rhai pobl yn cadw rhywfaint o'u tystiolaeth yn eu gweithle neu hyd yn oed pob rhan ohono ac yn cael trafferth cael gafael arno ar hyn o bryd. Os nad oes gennych gopi personol, awgrymir i chi siarad â'ch cyflogwr i weld os oes modd iddyn nhw eich cefnogi. Er enghraifft, hwyrach bod ganddynt gopi electroneg o'ch gweithgareddau neu asesiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Rydym yn annog pawb ar ein rhestr i gadw portffolio personol y gallant ychwanegu ato drwy gydol cyfnod tair blynedd eu hail-ddilysu. Mae'r adran **ail-ddilysu** bwrpasol ar ein gwefan yn cynnwys yr holl **ffurflenni a thempledi** y byddwch eu hangen i ail-ddilysu.

## Talu eich ffi

Ochr yn ochr â'ch ffurflen gais, i gadw eich cofrestriad NMC, fe fydd angen i chi dalu eich ffi cofrestru blynyddol. Ni fydd eich cofrestriad yn cael ei adnewyddu hyd nes byddwn ni wedi derbyn eich taliad.

Os ydym wedi rhoi estyniad i chi gyrraedd yr anghenion, talwch eich ffi fel arfer os gwelwch yn dda (gweler isod am ragor o fanylion).

Mae'r ffi cofrestru yn rhan bwysig o fod yn weithiwr cofrestredig proffesiynol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Nid dim ond nyrsys, bydragedd a nyrsys cysylltiol sydd yn talu'r ffi hwn: mae holl weithiwr proffesiynol meysydd iechyd a gofal cymdeithasol drwy Brydain yn ei dalu.

Y rheswm pennaf bod y ffi yn bwysig i NMC yw ei fod yn help i ni gynnal safonau, cynnal a chadw'r gofrestr, cefnogi ail-ddilysu a goruchwyllo addasrwydd i ymarfer yn y maes. I warchod y cyhoedd a chefnogi ein gweithwyr proffesiynol, yn ystod amseroedd normal ynghyd ag adegau o argyfwng, nid ydym yn dibynnu ar unrhyw arian gan y llywodraeth. Mae'n ofynnol arnom, yn statudol, i godi'r ffi. Fe fyddai newid hynny'n golygu sêl bendith seneddol.

# CEFNOGAETH Y

# GALLWN EI GYNNIG

**Os gallwch ail-ddilysu ar amser dylech wneud hynny fel arfer. Fodd bynnag, rydyn ni'n gwybod y bydd rhai pobl wedi ei chael yn anodd cwblhau eu proses ail-ddilysu o ganlyniad uniongyrchol i argyfwng Covid-19.**

Mae newidiadau i'n deddfwriaeth<sup>1</sup> yn golygu mwy o hyblygrwydd o'n rhan wrth ymateb i ddyfodiad Covid-19. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gynnig estyniadau ail-ddilysu hirach.

## Estyniad 12 wythnos

- Y rhai sydd i fod i ail-ddilysu ym mis Mawrth-Mehefin: Rydyn ni wedi ymestyn dyddiadau ceisiadau ail-ddilysu yn awtomatig i 12 wythnos. Golyga hyn bod gennych 12 wythnos ychwanegol o ddyddiad eich cais ail-ddilysu i gwblhau eich cais<sup>2</sup>. Fe wnaethom gymryd y cam hwn ar ddechrau'r argyfwng i sicrhau bod pawb a oedd eisiau bodloni'r gofynion ac aros ar ein cofrestr yn cael amser ychwanegol i wneud hynny, ond os nad oes angen estyniad arnoch ac rydych yn gallu ail-ddilysu ar amser, gwnewch hynny.
- Y rheini sydd i fod i ail-ddilysu o fis Gorffennaf ymlaen: Ymgeiswyr Gorffennaf ac wedyn: fe gewch ddewis ymuno ag estyniad o 12 wythnos o ddyddiad cau eich cais ar eich cyfrif **NMC ar-lein**. Bydd hyn yn ein galluogi i dargedu ein cefnogaeth barhaus yn well at bobl y mae'r argyfwng wedi effeithio ar eu gallu i ail-ddilysu.
- I'r rhai y bydd disgwyl iddynt ailddilysu o fis Ionawr 2021 ymlaen: Os bydd gennych reswm da dros fod angen mwy o amser i gwblhau eich cais, gallwch ofyn am estyniad o wyth wythnos ar ôl i'ch cais ailddilysu agor. Byddwn yn ystyried y ceisiadau hyn fesul achos.

## Estyniad pellach

Rydyn ni eisiau cefnogi pobl sydd, oherwydd amgylchiadau eithriadol sy'n deillio o argyfwng Covid-19, angen ymestyn eu dyddiad ail-ddilysu ymhellach.

- Y rhai sydd i fod i ail-ddilysu ym mis Mawrth-Mehefin: Rydyn ni wedi ymestyn yn awtomatig yr amser y mae'n rhaid i chi ail-ddilysu am 12 wythnos arall os oedd yr argyfwng yn golygu na allech fodloni'r gofynion o fewn yr estyniad 12 wythnos cychwynnol. Golyga hyn bod gennych hyd at 24 wythnos o ddyddiad eich cais ail-ddilysu gwreiddiol i gwblhau eich cais.
- Y rheini sydd i fod i ail-ddilysu o fis Mai ymlaen: Ar ôl yr estyniad cychwynnol o 12 wythnos, ac os yw'r argyfwng yn golygu na allwch gyrraedd y gofynion yn y cyfnod hwnnw, gallwch wneud cais am estyniad pellach o 12 wythnos (hyd at 24 wythnos o ddyddiad cau eich cais gwreiddiol). Rhaid i'ch cadarnhâwr gefnogi eich cais am ail estyniad. Wrth wneud y cais drwy **NMC ar-lein** bydd yn rhaid i chi ddatgan nad oeddech yn gallu cwblhau eich cais oherwydd effaith Covid-19 a bod eich cadarnhâwr yn cefnogi eich cais. Fe fyddwn angen manylion eich cadarnhâwr fel y gallwn anfon e-bost atyn nhw yn syth wedi i chi gyflwyno'ch cais.
- I'r rhai y bydd disgwyl iddynt ailddilysu o fis Hydref 2020 ymlaen: Ni fyddwch yn gallu gofyn am estyniad pellach.

<sup>1</sup> Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Gweithdrefnau Argyfwng) (Diwygio) 2020 Gorchymyn y Cyngor 2020

<sup>2</sup> Eich dyddiad ar gyfer eich cais ail-ddilysu yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno eich cais ail-ddilysu. Diwrnod cyntaf y mis y bydd eich cofrestrriad yn dod i ben fydd hwn, felly os mai 30 Ebrill yw eich dyddiad adnewyddu, 1 Ebrill fodd dyddiad eich cais ail-ddilysu.

Ar ôl i ni roi estyniad i chi, byddwn yn anfon e-bost atoch gyda'ch dyddiad gwneud cais ail-ddilysu estynedig. Hyd at ddyddiad estynedig eich cais ail-ddilysu fe gewch barhau i weithio fel nyrs neu fydwraig gofrestredig. Ni fydd y gofrestr ar-lein yn dangos eich dyddiad adnewyddu newydd oni bai eich bod yn adnewyddu eich cofrestrriad. Os yw eich cyflogwr angen prawf o'ch estyniad gallwch ddangos yr e-bost cadarnhau estyniad a gawsoch gennym ni.

Dros y cyfnod hwn, os ydym yn rhoi estyniad er mwyn eich helpu i gyrraedd y gofynion talwch eich ffi yn ôl eich arfer os gwelwch yn dda. Os ydych yn ei dalu drwy ddebyd uniongyrchol fe'i casglwn o fel arfer. Os ydych chi'n talu â cherdyn drwy **NMC ar-lein**, gallwch wneud hynny unrhyw bryd drwy fynd i'ch cyfrif a chlicio ar y botwm i Dalu Nawr.

## Eich cyfnod cofrestru newydd

Os ydych yn llwyddo i ail-gofrestru, bydd eich cyfnod newydd o dair blynedd yn dal i gychwyn o'ch dyddiad adnewyddu gwreiddiol.

### Esiaml:

- Roeddech i fod i ail-ddilysu ar 1 Mehefin 2020 ac adnewyddu ar 31 Mehefin 2020.
- Rydyn ni'n rhoi estyniad i chi o 12 wythnos hyd at 24 Awst 2020.
- Mae eich cyfnod cofrestru newydd yn cychwyn ar 1 Gorffennaf 2020.
- Eich dyddiad adnewyddu nesaf yw 30 Mehefin 2023 a bydd angen i chi gyflwyno eich cais ail-ddilysu nesaf erbyn 1 Mehefin 2023.

Golyga hyn bod cyfnod byr pryd mae dyddiad yr estyniad i'ch cyfnod cofrestru cyfredol yn croesi â dyddiad eich cyfnod cofrestru newydd. Cewch gyfrif unrhyw weithgareddau rydych yn ymgymryd â nhw yn erbyn unrhyw un o'ch ceisiadau i ail-ddilysu ond chewch chi ddim cyfrif yr un gweithgaredd ddwywaith tuag at y ddau gais.

### Esiaml (yn defnyddio'r un dyddiadau â'r rhai uchod):

- Mae'r estyniad 12 wythnos yn golygu bod eich cais ail-ddilysu presennol yn ddyledus erbyn 24 Awst 2020.
- Mae eich cyfnod cofrestru newydd yn dal i ddechrau ar 1 Gorffennaf 2020, felly mae eich cyfnodau cofrestru presennol a rhai newydd yn croesi.
- Rydych yn ymgymryd â rhywfaint o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn ystod Gorffennaf 2020, sydd o fewn y dyddiadau sy'n croesi.
  - Gallwch **naill ai** ei gyfrif tuag at eich cais ail-ddilysu presennol, sydd i fod i gael ei gyflwyno erbyn 24 Awst 2020, **neu**
  - ei gyfrif tuag at eich cais ail-ddilysu newydd, a fydd yn ddyledus erbyn 1 Mehefin 2023.
- Allwch chi **ddim** ei gyfrif tuag at y ddau gais.

Os ydych yn ysgrifennu hanes myfyriol ar sail y Datblygiad Proffesiynol Parhaus hwn, mae'n rhaid iddo ffurfio rhan o'r un Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau ail-ddilysu eraill yn y cyfnod pan mae'r dyddiadau'n croesi, fel oriau gwaith, casglu adborth neu ysgrifennu cofnodion myfyriol, **dim ond** yn erbyn un cais yn unig y cân nhw eu cyfrif.

Fodd bynnag, ni chewch gyfrif gwahanol weithgareddau yn ystod y cyfnod pan mae'r dyddiadau'n croesi, tuag at geisiadau gwahanol - chewch chi ddim cyfrif yr un gweithgaredd ddwywaith.

#### Esiampl (yn defnyddio'r un dyddiadau ag uchod):

- Mae'r estyniad 12 wythnos yn golygu bod eich cais ail-ddilysu presennol yn ddyledus erbyn 24 Awst 2020.
- Mae eich cyfnod cofrestru newydd yn dal i ddechrau ar 1 Gorffennaf 2020, felly mae eich cyfnodau cofrestru presennol a rhai newydd yn croesi.
- Rydych yn ymgymryd â dau ddarn o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn ystod Gorffennaf 2020, sydd o fewn y dyddiadau sy'n croesi.
  - Gallwch gyfrif un neu'r ddau ddarn **naill ai**: tuag at eich cais ail-ddilysu presennol, sydd i fod i gael ei gyflwyno erbyn 24 Awst 2020, **neu**
  - ei gyfrif tuag at eich cais ail-ddilysu newydd, a fydd yn ddyledus erbyn 1 Mehefin 2023.
- Allwch chi **ddim** cyfrif un neu'r ddau ohonyn nhw tuag at y ddau gais.

Gall eich cadarnhâwr fod o gymorth wrth geisio osgoi cyfrif gweithgareddau ddwywaith. Yn ystod y cyfnod o ddyddiadau'n croesi, os ydych yn bwriadu cyfrif gweithgareddau tuag at unrhyw un o'ch ceisiadau rhowch wybod iddynt a dangoswch sut ydych chi wedi cadw'r ddau gais ar wahân. I'ch helpu i gadw trefn ar ddyddiadau a gweithgareddau, rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn cadw eich portffolio cyfredol ar wahân i'ch cais ail-ddilysu hyd nes byddwch wedi cyflwyno eich cais ail-ddilysu nesaf.

## Cefnogaeth arall y gallwn ei roi i chi

Gallwn gynnig cefnogaeth i nyrsys, bydwragedd a nyrsys cysylltiol sy'n gweld defnyddio NMC ar-lein yn anodd. Os ydych eisiau cymorth gyda NMC ar-lein, cysylltwch mewn da bryd cyn bod eich cais ail-ddilysu i fod i mewn. Y ffordd hawsaf yw drwy e-bostio **revalidation.escalation@nmc-uk.org**, gan roi'r geiriau 'Help with NMC Online/ Cymorth gydag NMC ar-lein'. Cofiwch gynnwys y canlynol:

- eich enw
- eich rhif PIN NMC
- rhif ffôn cysylltu
- dyddiad eich cais ail-ddilysu
- os oes gennych gyfrif NMC ar-lein ai peidio
- manylion am eich amgylchiadau
- y cymorth neu'r addasiadau a fyddai o help i chi ail-ddilysu.

Os nad ydych yn gallu cysylltu â ni ar e-bost, mae croeso i chi ffonio'r Ganolfan Gofrestru ar **020 7333 9333**.

Os oes gennych anabledd neu anaf, rhowch wybod i ni os bydd angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch i gael gafael ar ein gwasanaethau. Mae ein **polisi addasiadau rhesymol** yn egluro pa addasiadau y gallwn eu gwneud.

Os ydych yn pryderu am eich gallu i dalu'r ffi, cysylltwch â'r Ganolfan Gofrestru ar **UKenquiries@nmc-uk.org** neu ffoniwch **020 7333 9333**.

## Apelio

Am y tro, rydym wedi gohirio apeliadau. Wrth symud ymlaen, yn ystod y cyfnod hwn mae'r newidiadau i'n rheolau yn caniatáu i ni gynnal gwrandawiadau o bell. Byddwn yn ceisio cadw cysylltiad agos â phawb sydd ag apêl ac sy'n cael ei effeithio.

## Gadael y gofrestr

Os hoffech adael y gofrestr, er enghraifft os ydych yn ymddeol a'i bod yn amser i chi ail-ddilysu, ewch i'ch cyfrif **NMC ar-lein** a dewiswch 'Go to application'. Yn cam 2 o'r cais ail-ddilysu, dewiswch 'I wish to lapse my registration(s)'. Byddwch yn parhau i fod ar y gofrestr hyd nes bydd eich cofrestriad yn dod i ben.

## Ymuno â'r gofrestr dros dro

Os nad ydych eisiau adnewyddu eich cofrestriad ond eisiau ymuno â'r gofrestr dros dro, gadewch y gofrestr (fel uchod), yna fe allwch roi gwybod i ni eich bod eisiau bod ar y gofrestr Covid-19 dros dro, drwy ein gwefan.

Pan fydd y gofrestr dros dro yn cau ni fyddwch wedyn yn weithiwr proffesiynol cofrestredig. Fe rown wybod i chi pa ddyddiad fydd eich cofrestriad yn dod i ben fel eich bod yn gwbl ymwybodol o'r ffaith.

Wedi hynny, os hoffech ail-ymuno â'r gofrestr barhaol, fe fydd croeso i chi wneud cais i ail-gofrestru drwy ein **proses arferol**.

## Os oes gennych gwestiynau

Os ydych eisiau unrhyw beth arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ail-ddilysu **cysylltwch â ni**, neu ewch i'r adran **ail-ddilysu** ar ein gwefan.